| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dyddiad: | 9 Mawrth 2023 |
| Pwnc / Testun: | Cynllun y Cyngor 2023-28 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** Mae'r adroddiad cysylltiedig yn benllanw 12 mis o baratoi.

**1.2** Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi casglu dealltwriaeth o'r hyn yr oedd staff, cynghorwyr, a thrigolion Ynys Môn yn gobeithio'i weld y Cyngor yn canolbwyntio arno yn ystod Cynllun y Cyngor ar gyfer y cyfnod o 5 mlynedd sydd i ddod.

**1.3** Dylunwyd y broses ymgynghori i geisio ennyn diddordeb ac ysgogi cymaint o ymatebion â phosibl. I'r perwyl hwnnw, lluniwyd deunydd a oedd amlygu'r materion dan sylw mewn modd hawdd ei ddarllen.

**1.4** Fel a nodir yn 1.2, ymgynghorwyd â staff ynghylch y chwe amcan strategol a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig. Yng ngolau ymatebion aelodau staff, gwnaed gwelliannau a rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i'w barnau cyn cynnal ymgynghoriad 'cyhoeddus'.

**1.5** Cafodd yr amserlen wreiddiol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ei hymestyn i 8 wythnos yn dilyn trafodaeth ac arweiniad gan Gynghorau Tref a Chymuned yn eu cyfarfod ar Fedi'r 8fed. Agorodd y cyfnod ymgynghori yn dilyn cyfnod o alaru o ganlyniad i farwolaeth Ei Mawrhydi, y Frenhines.

Cychwynnodd ar 20$^{fed}$ Medi hyd at y 14$^{eg}$ Tachwedd.

**1.6** Ceisiodd y Cyngor mewn cyd-weithrediad ag eraill i wneud yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl. Gwelir tystiolaeth o hyn o safbwynt yr ymdrech ar y cyd i dargedu pob ward ar yr ynys mewn rhyw fodd neu'i gilydd.

**1.7** Cafodd copïau caled o'r arolwg, fersiynau arferol a rhai 'hawdd i'w darllen', yn ogystal â phosteri a thaflenni gyda dolenni uniongyrchol i'r ymgynghoriad ar-lein, eu dosbarthu i -

- ganolfannau hamdden yr ynys
- llyfrgelloedd
- Oriel Môn
- Swyddfeydd y Cyngor

**1.8** Fe'u dosbarthwyd hefyd i hybiau cymunedol lle cynhaliwyd sesiynau a fforymau ymgysylltu penodol wyneb yn wyneb. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys panel o swyddogion a oedd yn bresennol i gyfarfod y cyhoedd a thrafod y pwysau cysylltiedig â'r ffrydiau gwaith a oedd yn berthnasol i'r amcanion strategol.

Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb yn:

- Neuadd y Dref, Llangefni
- Gwelfor, Caergybi
- Neuadd Llaingoch
- Yr Iorwerth Arms, Bryngwran
- Neuadd Llanfairpwll
- Canolfan Biwmares
- Caffi Mechell, Llanfechell

**1.9** Defnyddiwyd y llyfrgell symudol i ddosbarthu copïau caled 'hawdd i'w darllen' o'r ymgynghoriad i'r rheiny nad oeddent yn gallu gadael eu cartrefi.

**1.10** Targedwyd plant oedran ysgol (3-18) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan trwy'r cynghorau ysgol.

**1.11** Trwy'r holl dargedu yma, cafwyd yr ymatebion canlynol –

- Roedd 538 o aelodau staff wedi ymateb cyn yr ymgynghoriad
- safbwynt ymatebion ar-lein – roedd 1620 wedi rhyngweithio â'r arolwg a 1098 wedi ymateb naill ai'n llawn neu'n rhannol
- Derbyniwyd 61% o'r ymatebion gan bobl o oedran gweithio
- Derbyniwyd 79 o ymatebion ar ffurf copïau caled
- safbwynt pobl ifanc – roedd 27 o gynghorau ysgol wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn ddemocrataidd, gan gynrychioli tua 3,500 - 4000 o blant o ysgolion cynradd ac uwchradd
- Roedd 91% o'r ymatebwyr wedi ymateb trwy gyfrwng y Saesneg, tra bo 9% wedi ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg

**1.12** Cafodd canlyniad y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori hynny ei gyfarch yn adroddiad 'Datblygu blaenoriaethau strategol y Cyngor 2023-28' a gafodd ystyriaeth gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 24ain o fis Ionawr.

**1.13** Roedd canfyddiadau'r ymgysylltu a'r ymgynghoriad ar y chwe blaenoriaeth strategol a grybwyllwyd uchod yn galonogol. Mae'r data uchod yn ein hysbysu bod y Cyngor wedi derbyn dros 2,500 o ymatebion ar gyfer pob math o weithgaredd.

**1.14** O ganlyniad i'r gwaith a'r ystyriaethau blaenorol, cyflwynir Cynllun 'drafft' y Cyngor presennol 2023 - 28 ar gyfer sylw'r pwyllgor fel *Atodiad A*. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys amcanion llesiant y gorfforaeth, ynghyd ag amcanion strategol a ffrydiau gwaith cysylltiedig.

**1.15** Gofynnir i'r Cyngor:

**A1** Mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae Cynllun y Cyngor yn nodi Amcanion Strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2028. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae Cynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023 – 28 yn cydnabod 6 blaenoriaeth strategol y bydd y Cyngor am eu cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae ffrydiau gwaith cysylltiedig wedi cael eu cydnabod er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.<br><br>Cydnabyddir bod nifer o'r ffrydiau gwaith hynny yn rhai ataliol eu natur rhag –<br><br>a. Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref<br>b. Blaenoriaethu'r agenda digarboneiddio ar draws y Cyngor |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n Gwahoddwyd sefydliadau partneriaethol yn ogystal â chynghorau tref a chymuned lleol i ymateb i'r ymgynghoriad cyn datblygiad y Cynllun |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Derbyniwyd dros 2,500 o ymatebion ynglŷn â'r gwaith ymgynghori cyhoeddus syn datblygiad y Cynllun. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Oherwydd cymhlethdod a chynnwys amrywiol Cynllun drafft y Cyngor 2023 - 28, argymhellir a chynghori bod y gwahanol ffrydiau gwaith a phrosiectau cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'r Cynllun drafft, yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb unigol ar wahân er mwyn asesu effeithiau'r gwaith cysylltiedig.<br>6.2 Cynigir bod yr asesiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r naill ai, neu gyfuniad o'r – |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Tîm Arweinyddol<br>• Byrddau rhaglenni corfforaethol<br>• Pwyllgorau Craffu / Gwaith<br><br>(yn ddibynnol ar gynnwys) cyn dilyniant y gwaith cysylltedig. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Fel yr uchod |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel yr uchod |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddol ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 28/2. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cynllun y Cyngor (2023-2028) |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23<br>• Adroddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori: Cynllun y Cyngor Drafft (2023-2028) |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cynllun y Cyngor 2023 - 2028

**Chwefror 2023**

**Statws yr adroddiad - Swyddogol**

**Paratowyd gan:**

Y Tîm Trawsnewid o fewn y Gwasanaeth AD a Thrawsnewid

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

## Rhagair

Bu'r cyfnod dros y pandemig yn heriol ac ansicr i'r Cyngor ond heb os bu i'r staff, partneriaid a chymunedau oll gydweithio er budd trigolion yr ynys.

Mae'n amser bellach i ni gynllunio at y dyfodol, fydd yn dod â sawl her a chyfle gwahanol. Byddwn yn parhau i weithredu a moderneiddio er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posib.

Y Cynllun hwn, sef Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn (2023 – 2028), yw ein prif ddogfen strategol.

Bydd yn dylanwadu ac yn llywio strategaethau a chynlluniau er mwyn darparu gwasanaethau dros y bum mlynedd nesaf. Mae eich barn wedi ein cynorthwyo i adnabod anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd, pobl hŷn, cymunedau, busnesau ac amgylchedd yr ynys heddiw a thua'r dyfodol er mwyn llunio chwe amcan strategol.

Mae'r sefyllfa economaidd a'r argyfwng costau byw yn heriol gydag effeithiau pellgyrhaeddol a sylweddol ar gymunedau, busnesau a sefydliadau'r Ynys. Er gwaethaf yr ansicrwydd a galw cynyddol am wasanaethau hanfodol, byddwn ni a'r Cyngor yn bendant yn ein hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaethau gorau bosib i holl drigolion yr Ynys. Yn ystod y cyfnod heriol hwn mae ffocws ein staff ac aelodau etholedig ar gynnal lles, llesiant ac ansawdd bywyd ein trigolion wrth ymdrechu i greu dyfodol gwell.

Bydd angen parhau i flaenoriaethu, cydweithio ac ymdrechu i'r eithaf er mwyn diogelu a gofalu am y rhai sy'n fregus o fewn ein cymdeithas, tra ar yr un pryd yn cyflawni'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun hwn, sef:

**"Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu."**



Llinos Medi

Arweinydd y Cyngor



Dylan Williams

Prif-weithredwr

## Cyflwyniad

Gweledigaeth y Cyngor Sir yw ***creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.***

Mae cydweithio yn allweddol i wireddu ein gweledigaeth. Byddwn yn Gyngor parchus sy'n ystyriol o eraill, yn cydweithio mewn modd gonest ac yn ymrwymedig i safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb er mwyn creu'r argraff orau bosib o'r Ynys a'i chymunedau.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, bydd angen i ni barhau gyda'n rhaglen moderneiddio a thrawsnewid ein gwasanaethau a'r ffordd yr ydym yn gweithio. Rhan hanfodol o foderneiddio fydd gwrando ar yr hyn y mae trigolion, defnyddwyr ein gwasanaethau a busnesau yn ei feddwl – a bod yn barod i weithredu.

Er mwyn llunio'r Cynllun hwn, aethom ati i gynnal y gwaith ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol yr ydym erioed wedi'i gyflawni fel Cyngor. Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliom yn 2022, gofynnom i drigolion am eu barn ynglŷn â'u blaenoriaethau pwysicaf. Bu'r ymateb yn ran creiddiol o'r broses o lunio'n amcanion strategol.

Ar draws yr holl grwpiau oed, a'r mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori gwahanol a ddefnyddiom yr amcanion strategol cyson oedd:

- Yr Iaith Gymraeg - cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith
- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys
- Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Dyma'r amcanion mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio arnynt.

Fel pob Cyngor arall, bydd pwysau ariannol mawr arnom a bydd rhaid dod o hyd i fwy o arbedion. Bydd gofyn inni reoli'r cynnydd mewn costau wrth lunio cyllidebau, ac ymateb i'r galw cynyddol oherwydd newidiadau demograffig a chymdeithasol.

Er mwyn gweithio o fewn y cyfnod heriol a newidiol hwn, rydym yn mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at reoli ein adnoddau. Mae'r rhagolygon ariannol tymor canol yn nodi pwysau. Yn seiliedig ar y rhagolygon o ran chwyddiant, costau byw a phwysau twf, a gyda chynnydd o 5% yn y dreth cyngor flynyddol, rydym yn rhagweld cyfnod heriol i o'n blaenau.

Mae'r cynllun hwn felly yn un uchelgeisiol. Gan y bydd darparu gwasanaethau'n heriol, bydd profiadau ac adborth ein trigolion yn fesur pwysig o lwyddiant. Byddwn yn llunio dogfen cyflawni flynyddol ac yn adrodd yn ffurfiol ar gynnydd, llwyddiant a chanlyniadau.

Erbyn 2028, bydd newid mawr o ran y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, bydd llwyddiant yn cael ei ddathlu a byddwn wedi symud ar y daith o greu Ynys Môn sydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.

## Gweledigaeth y Cyngor

“Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.”

## Amcanion Strategol

- Yr Iaith Gymraeg - cynyddu’r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio’r iaith
- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – rhoi’r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau’r dyfodol
- Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi’r Ynys
- Newid Hinsawdd – ymateb i’r argyfwng, mynd i’r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030

## Gwerthoedd ag Egwyddorion Cyffredinol

Ein gwerthoedd sy’n diffinio pwy ydym ni a lle rydym am fynd fel sefydliad.

Byddwn yn defnyddio’r gwerthoedd a isod i ddatblygu ac arwain ein gweledigaeth, ein cynlluniau strategol a’n gwasanaethau i’r dyfodol:


| Gwerthoedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Parch** | **Cydweithio** | **Gonestrwydd** | **Hyrwyddo’r Cyngor a’r Ynys** |
| Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau. | Rydym yn gweithio fel tîm, gyda’n cymunedau a’n partneriaid, i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn. | Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb. | Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i’r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o’r Ynys. |

Dyma’r chwe egwyddor cyffredinol y byddwn yn ddefnyddio i’n helpu i gyflawni ein hamcanion:

| Egwyddorion Cyffredinol | | |
|---|---|---|
| **Datblygu Cynaliadwy** | **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** | **Atal a Diogelu** |
| Mae’n rhaid i gynaliadwyedd fod yn gonglfaen cyfeiriad strategol a gweithredol y Cyngor. Bydd yn ganolog i ddatblygu polisïau, darparu gwasanaethau, gwaith partneriaeth a’r ffordd y mae’r sefydliad yn cael ei redeg. | Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i gydraddoldeb sicrhau gwell canlyniadau i’r rheini sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau byddwn yn gweithio i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon fel rhan o’n holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. | Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae cyfrifoldeb ar bob gwasanaeth a gweithiwr yn y Cyngor i ddiogelu pobl, beth bynnag yw eu rôl neu eu teitl. Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. |

| **Ymrwymiad ac Atebolrwydd** | **Cyfathrebu** | **Moderneiddio** |
|---|---|---|
| Mae'r Cyngor a'i weithwyr yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau trwy amcanion corfforaethol, amcanion gwasanaethol ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau sydd gennym. Mae’r broses hon yn dangos ein hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol am gyflawni Cynllun y Cyngor. | Proses ddwyffordd yw cyfathrebu. Dull y Cyngor yw bod yn gynhwysol, gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli i gyrraedd cymaint o drigolion a rhanddeiliaid â phosibl. Trwy sicrhau cyfathrebu effeithiol (yn fewnol ac yn allanol) gallwn sicrhau ein bod yn rhyngweithio a meithrin perthynas gryfach ag eraill ac yn cael sgyrsiau mwy cynhyrchiol. | Trwy gyfrwng rhaglen foderneiddio, bydd y Cyngor yn ceisio gwneud gwell defnydd o’r data sydd ar gael i lywio gwasanaethau newydd a sicrhau bod anghenion y cwsmer yn medru cael eu diwallu drwy gyfrwng digidol lle bo’n addas. |

## Y Cylch Strategol




Mae'r cylch strategol uchod yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion. Mae'n adnabod beth sydd angen ei gyflawni, sut rydym am gyflawni a pham.

Mae'r Cynllun hwn a'r cynlluniau strategol cysylltiedig yn datgan:

- Gweledigaeth y Cyngor
- Gwerthoedd a themâu trawsbynciol
- Amcanion strategol a
- Gweithredoedd allweddol i'w cyflawni a'i gwireddu.

## Ffeithluniau Data ****

### DATA'R CYNGOR

**Cyllideb refeniw net y Cyngor - £174m**

**Staff y Cyngor – dros 2500**

**Nifer adeiladau'r Cyngor Sir (ag eithrio ysgolion) - 68**

**Nifer yr Ysgolion - 46**

**Hyd y ffyrdd a wasanaethir – 1,187km / 738 milltir**

**Maint yr Ynys (arwynebedd)– 712km sgwâr / 275 milltir sgwâr**

**125milltir / 201km o lwybr yr arfordir**

**Nifer o Dai cymdeithasol – 3,948**

**Nifer o gynghorwyr – 35 (8 dynes / 27 dyn)**

**Wardiau aml aelod – 14**

### DATA ONS / NOMIS

**Poblogaeth – 68,900 Cyfrifiad 2021 – 33,700 (gwryw) / 35,200 (benyw)**

**Dadansoddiad poblogaeth Môn yn ôl gwlad genedigol – 67% Cymru / 29% Lloegr / 1% Yr Alban / 3.5% Gwledydd Eraill**

**56.5% oedran gweithio / 26.5% yn hŷn (65+) / 20.1% <18**

**92% yn fodlon ar ble maent yn byw**

**55.8% yn gallu siarad Cymraeg**

**14% yn teimlo'n unig - y gyfradd isaf yng Nghymru**

**Cyfartaledd Oedran – 48 Môn / 42 Cymru**

**76% o bobl oedran gweithio yn economaidd weithgar**

**74% o bobl oedran gweithio mewn gwaith**

**Cyflog gros cyfartalog ar gyfer pobl sy'n gweithio'n llawn amser - £589 yr wythnos / Cyfartaledd Cymru, £603**

**21,500 hectar wedi ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**

## Amcanion Strategol a

## Gweithredoedd Allweddol

**Yr Iaith Gymraeg –** cynyddu’r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio’r iaith

Mae’r Gymraeg yn rhan annatod o’n hunaniaeth, ein diwylliant a’n treftadaeth ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ei bod yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Mae’r iaith yn cael ei siarad yn eang yn ein cymunedau ac mae’r ganran o’r boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg ar Ynys Môn yr ail uchaf yng Nghymru. Rydym am weld cynnydd yn y nifer sy’n gallu siarad yr iaith ar yr Ynys a hefyd cynnydd yn y nifer sy’n ei defnyddio bob dydd.

Ein nod yw sicrhau bod ein ymdrechion ni yn lleol yn cyfrannu’n gadarnhaol tuag at gyflawni gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwr erbyn 2050.

Mae iaith a chyfathrebu hefyd yn rhan hanfodol o ddarparu llawer o'n gwasanaethau fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gallu defnyddio’r Gymraeg yn effeithio ar les ein trigolion ac yn aml mae’n fater o angen nid yn unig o ddewis.

- ***Diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu***

  i. Cynnyddu’r nifer o blant a phobl ifanc sy’n astudio yn Gymraeg drwy weithredu cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg (CSGA)

  ii. Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall gwerth a manteision y Gymraeg drwy gydweithio gyda Phartneriaeth Cymraeg i Blant a Theuluoedd Môn

  iii. Parhau i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol, tu hwnt i’r ystafell ddosbarth, drwy gydweithio gyda phartneriaid yn lleol

  iv. Codi statws y Gymraeg yn y gweithle drwy gynnig cyfleoedd datblygu, codi hyder a chymorth ymarferol

  v. Darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel a chadw at ofynion statudol

  vi. Sicrhau bod cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn eu cymunedau drwy gydweithio gyda darparwyr dysgu a hyfforddi

  vii. Datblygu’r economi i gefnogi’r Gymraeg drwy fanteisio ar raglenni grant a chydweithio gyda busnesau lleol

**Rydym yn ymrwymo i:**

- Gynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel
- Gweithredu ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg
- Cydweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- Cefnogi ein staff a'n cynghorwyr i gynyddu eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith

**Erbyn 2028 byddwn wedi:**

- Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026
- Diweddaru ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Defnyddio rhaglenni grant i ddatblygu'r Gymraeg yn yr economi a gyda busnesau
- Ehangu ein cynnig o hyfforddiant er mwyn creu mwy o gyfleoedd i'n staff, ~~a'n~~ cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys ddatblygu eu sgiliau Cymraeg

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant – rhoi’r cymorth cywir ar yr adeg cywir**

Mae iechyd, llesiant a diogelwch trigolion yn hanfodol er mwyn creu ansawdd bywyd gwell a hybu annibyniaeth ar Ynys Môn. Felly, mae parhau i sicrhau cymunedau iachach, mwy diogel a thecach trwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau ataliol, gwella a chefnogol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill o’r un anian, yn gonglfeini ein nod.

Gan adeiladu ar yr arfer dda o gyd-weithio gyda’n partneriaid, byddwn yn ceisio sicrhau bod y trigolion mwyaf bregus yn cael eu hamddiffyn a’u bod yn derbyn gwasanaethau cyd-gysylltiedig gan gyrff iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn flaenoriaeth bwysig, a bydd angen parhau i gydweithio ar draws pob sector a maes yn y gymuned.

- ***Amddiffyn a chefnogi pobl fregus***

  i. Cryfhau’r ddarpariaeth cyfleoedd dydd ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu trwy wella ac annog mynediad i adnoddau cymunedol

  ii. Lleihau’r effeithiau a brofir gan bobl mewn tlodi a defnyddio mesurau lliniaru Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i gostau byw cynyddol

  iii. Sicrhau fod y rhaglen ymyrraeth gynnar ac ataliol yn gwella ansawdd bywyd

  iv. Sicrhau fod hybiau cymunedol yn darparu gwasanaethau er mwyn caniatáu annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a llesiant pobl

  v. Gweithio gyda chymunedau, partneriaid a sefydliadau trydydd sector i wella cyfleoedd cymdeithasol a phontio’r cenedlaethau lle bo hynny’n briodol

  vi. Buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden er mwyn cynyddu mwynhad, presenoldeb a lefelau cyfranogi i wella iechyd ein cymunedau

  vii. Moderneiddio’r ddarpariaeth tai â chymorth ar gyfer unigolion

  viii. Parhau i weithio gyda phreswylwyr a chymunedau trwy’r rhaglen cynllunio lle i gefnogi a gwella cadernid cymunedol

  ix. Moderneiddio Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor a gweithio gyda phartneriaid i’w wneud yn addas ar gyfer y dyfodol

  x. Cynnig cyfleoedd i blant sy’n derbyn gofal nodi beth sy’n bwysig iddynt a dylanwadu ar eu gofal eu hunain

  xi. Parhau gyda’n datblygiad o fwy o Gartrefi Clyd

  xii. Addysgu partneriaid a chymunedau am effaith trawma

**Rydym yn ymrwymo i:**

- gefnogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl yn y gymuned
- cydweithio gyda defnyddwyr a phartneriaid gan ganolbwyntio ar “beth sy’n bwysig”
- gwarchod safon gwasanaethau a theilwra ymateb yn unol â disgwyliadau
- gwrando ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau a sicrhau cyfle i fynegi barn
- symleiddio a gwella trefniadau gweithredol er mwyn ymateb yn briodol a chyson

**Erbyn 2028 byddwn wedi:**

- Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth
- Gwella ac ehangu’r ddarpariaeth tai a chymorth
- Ehangu’r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol
- Datblygu mwy o ddarpariaeth mewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth

**Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol**

Ein nod yw gwireddu ein strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg trwy fuddsoddi yn arweinwyr, staff, adeiladau a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer cenhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Trwy ddal ati i weithio gyda rhanddeiliaid, gwella cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol plant a phobol ifanc, wrth gefnogi eu lles ynghyd â sicrhau cyfleoedd ehangach er mwyn dysgu a ffynnu.

Byddwn yn sicrhau bod treftadaeth leol yn ffynnu, mewn cymuned sy'n gynyddol amlddiwylliannol ac amlieithog, a bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Gymraeg.

- ***Codi cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol***

  i. Sicrhau'r addysg gorau posib ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc trwy fuddsoddi yn ein gweithlu, datblygu cymunedau dysgu o safon a thrwy roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

  ii. Cynorthwyo plant a phobl ifanc i reoli eu hiechyd meddwl a gwella eu llesiant

  iii. Parhau i gefnogi plant a phobol ifanc wrth ddatblygu eu medrau allweddol a'u sgiliau digidol

  iii. Cyd-weithio gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynnig cymorth ac arweiniad i ieuenctid Ynys Môn mewn ffordd gynhwysol ac arloesol

  iv. Darparu cyfleoedd 'dysgu ail gyfle', fel bod trigolion Ynys Môn yn gallu parhau i ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd.

- ***Darparu cymunedau dysgu cynaliadwy***

  i. Rhoi rhaglen moderneiddio cymunedau dysgu ddiwygiedig ar waith fel bod ysgolion yn addas i bwrpas ac yn gweithio tuag at statws carbon niwtral

  ii. Parhau gyda'n buddsoddiad yn y gweithlu er mwyn datblygu arweinyddiaeth ac addysgu ar draws yr Ynys.

  iii. Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i gael mynediad at weithgareddau addysgol a gweithgareddau yn y gymuned tu allan i oriau ysgol traddodiadol

  iv. Gweithio tuag at fod yn Ynys Sy'n Wybodus o Drawma drwy ddull cymunedol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ein plant, phobol ifanc a'r gymuned ehangach

  v. Hyrwyddo a chydweithio i sicrhau cyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc trwy waith

  vi. Cyfrannu i wella cyfranogiad plant a phobl ifanc i chwarae rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau

  vii. Mabwysiadu a gwireddu strategaeth newydd ar gyfer Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg

viii. Moderneiddio a datblygu darpariaeth a chyfleoedd hyfforddi dysgu ôl-16

ix. Parhau i gynnig llyfrgelloedd o safon, archifdai effeithiol ac Oriel gelf ac amgueddfa arloesol, sydd yn gwbl hygyrch ac yn cyfrannu at fywyd trigolion yr Ynys.

**Rydym yn ymrwymo i**:

- gefnogi plant a phobol ifanc i fod yn:
    - ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
    - cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
    - trigolion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd
    - unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- sicrhau bod plant a phobol ifanc yn gallu cyflawni eu llawn potensial
- cefnogi lles emosiynol a meddyliol plant a phobol ifanc yr Ynys
- cefnogi cymunedau dysgu i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu gyda'r gallu i hunan-wella
- darparu gwasanaeth llyfrgelloedd, archifau a'r Oriel o ansawdd sy'n ysbrydoli ac yn cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid, amcanion corfforaethol a safonau cysylltiedig.

**Erbyn 2028 byddwn wedi:**

- sicrhau bod y strategaeth moderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gyda arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol
- datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg
- sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobol ifanc trwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob gymuned dysgu ar draws yr Ynys
- cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd
- sicrhau fod y gwasanaethau archifau, oriel a llyfrgelloedd o'r safon uchaf ag yn ychwanegu'r gwerth gorau am arian trwy gyfrannu'n effeithiol tuag at dysgu

**Tai – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref**

Mae ethos cymunedol cryf mewn ardaloedd gwledig, pentrefi a threfi, ac mae cyfraddau unigrwydd ymysg yr isaf yng Nghymru.  Gwerthfawrogir fod Ynys Môn yn le diogel, a bod y mwyafrif o drigolion yn teimlo'n saff ac yn fodlon iawn â lle mae nhw'n byw.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid fel cymdeithasau tai cofrestredig i ymateb i'r heriau tai lleol. Byddwn yn cyd-weithio i adnabod anghenion tai'r Ynys er mwyn gwireddu'r angen cydnabyddedig am dai yn unol â'r tenantiaethau sydd eu hangen.

- ***Cartrefi o safon, fforddiadwy a hygyrch***

  xiii. Cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnal ansawdd ac ystod yr opsiynau cartrefi sydd ar gael yn y sector gofal

  xiv. Datblygu cyfleuster gofal ychwanegol pellach ym Mhorthaethwy

  xv. Cynyddu gwasanaeth seibiant a gofal dydd ar gyfer plant ag anableddau

  xvi. Adeiladu cartrefi newydd effeithlon o ran ynni sydd â pherfformiad ynni gradd 'A' er mwyn lleihau'n ôl troed carbon

  xvii. Parhau i fuddsoddi yn ein stoc tai drwy ail-fodelu eiddo sydd bellach ddim yn addas a gweithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II

  xviii. Parhau i fuddsoddi mewn technoleg newydd i wella mynediad at wasanaethau i'n tenantiaid a chwsmeriaid mewn modd digidol

  xix. Lleihau'r gofyn am unedau llety argyfwng trwy gynyddu'r nifer o gartrefi parhaol sy'n cael eu datblygu

  xx. Defnyddio premiwm y dreth gyngor a godir i roi cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf sy'n methu fforddio prynu cartref ar y farchnad agored

  xxi. Parhau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr Ynys

  xxii. Gweithio mewn partneriaeth i helpu i gefnogi unrhyw ffoaduriaid sy'n dod i fyw ar yr Ynys

**Rydym yn ymrwymo i:**

- ganolbwyntio ar anghenion ein cwsmeriaid a bod yn atebol iddynt
- cefnogi ein cwsmeriaid, tenantiaid, cydweithwyr a phartneriaid allweddol er mwyn gallu cynnal ein cymunedau
- arloesi er mwyn gwella ein darpariaeth tai drwy fanteisio mewn newidiadau deddfwriaethol ac ymgeisio i leihau gwastraff cysylltiedig a'r broses ddatblygu
- arloesi er mwyn gwella gwasanaethau ac i sicrhau gwerth am arian i'n tenantiaid a thrigolion

**Erbyn 2028 byddwn wedi:**

- Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II
- Agor trydydd cynllun Tai Gofal Ychwanegol a gyda cynlluniau am y pedwerydd
- Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr Ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf
- Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy
- Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau

**Economi – sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys**

Mae hanner poblogaeth Ynys Môn o oedran gweithio ac rydym yn cydnabod yr angen i wella cyfleoedd gwaith ar yr Ynys. Mae trigolion yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd yn y sectorau cyfrifiadureg a thechnoleg, ynni, gweithgynhyrchu, twristiaeth ac iechyd.

Ein nod parhaus yw cefnogi busnesau presennol, denu buddsoddiad newydd addas, cynyddu nifer y busnesau newydd a sicrhau fod yr Ynys yn parhau i fod ag un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru o ran cau busnesau.

- ***Adfywio a Datblygu Economaidd -***

  i. Archwilio cyfleoedd i adeiladu unedau busnes newydd ledled yr Ynys er mwyn caniatáu i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes dyfu

  ii. Cyd-weithio gyda pherchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol

  iii. Parhau i wireddu adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi

  iv. Sicrhau'r cyfleoedd gorau i gwmnïau lleol elwa ar gontractau a chyfleoedd sector cyhoeddus

  v. Cydweithio i wireddu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn

  vi. Cydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i gryfhau rôl Caergybi a'r porthladd fel 'Porth' rhyngwladol allweddol

  vii. Parhau i weithio mewn partneriaeth trwy Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i greu cyfleoedd lleol a rhanbarthol newydd

  viii. Parhau i fanteisio ar gyfleoedd cyllido allanol i sicrhau fod anghenion economaidd yr Ynys yn cael sylw.

  ix. Cynnal, cadw a datblygu ein hisadeiledd allweddol

- ***Yr Economi Ymwelwyr -***

  i. Rhoi cynlluniau Rheoli Cyrchfan ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) newydd ar waith

  ii. Parhau i fuddsoddi mewn isadeiledd craidd i ddarparu profiadau diogel a chynaliadwy er mwyn i drigolion ac ymwelwyr fwynhau arfordir a chefn gwlad yr Ynys

  iii. Cefnogi a chroesawu ymweliadau gan longau mordaith i Ynys Môn a Gogledd Cymru

  iv. Dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a sicrhau fod pawb yn gwerthfawrogi rinweddau'r Ynys

**Rydym yn ymrwymo i:**

- Ysgogi adfywiad economaidd a chymdeithasol
- Cefnogi'r economi a busnesau lleol i dyfu a ffynnu
- Cynyddu ac annog datblygiad prosiectau carbon isel
- Cydweithio gyda'r sector twristiaeth i fanteisio ar boblogrwydd yr Ynys fel cyrchfan

**Erbyn 2028 byddwn wedi:**

- Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel
- Cydweithio i wireddu amcanion economi cylchol.
- Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol
- Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol
- Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr
- Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol

**Newid Hinsawdd** – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Mae'n amser dwysau a gweithredu'n bendant ar yr argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2020. Mae hyn yn fater pwysig i blant a phobl ifanc ar yr Ynys. Ni fu'r angen i weithredu er lles yr hinsawdd a'n hamgylchedd erioed yn fwy hanfodol.

Trwy weithio mewn partneriaeth yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol ein nod yw ymateb i'r heriau a'r cyfleon yma mewn modd bositif, dewr ac arloesol fel y gallwn barhau ar y daith i fod yn Gyngor ac yn wlad sero net erbyn 2030.

- ***Isadeiledd Allweddol, a Chynllunio Newid Hinsawdd***

    i. Parhau ar y daith o leihau allyriadau carbon o dir ag asedau'r Cyngor a newid sut rydym yn gweithredu a darparu gwasanaethau

    ii. Sefydlu cyfradd ailgylchu domestig o 70% a datblygu'r economi gylchol

    iii. Datblygu a chyflawni cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy fel datgarboneiddio trafnidiaeth, teithio llesol, llwybrau beicio

    iv. Annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol

    v. Parhau i reoli ein safleoedd cefn gwlad yn effeithlon i gefnogi adferiad natur a datgarboneiddio

    vi. Ystyried effaith newid hinsawdd a bioamrywiaeth o fewn penderfyniadau ar bob lefel o'r Cyngor

    vii. Datblygu a cyflawni cynlluniau plannu coed a chloi carbon

    viii. Parhau i leihau risg llifogydd mewn ardaloedd sy'n achosi pryder

    ix. Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd

- ***Rhaglen Ynys Ynni -***

    i. Parhau i ddylanwadu ar ddatblygiadau ynni mawr i sicrhau cefnogaeth a buddiannau lleol a chymunedol hirdymor, a lleihau effeithiau negyddol posib

    ii. Cefnogi a hwyluso datblygiadau ynni carbon isel posib e.e. gwynt, llanw, solar, hydrogen a niwclear, yn ogystal ag isadeiledd grid cysylltiedig addas.

**Rydym yn ymrwymo i:**

- weithio tuag at gyrraedd statws carbon sero net;
- cefnogi cymunedau i leihau allyriadau carbon a'u heffaith ar yr amgylchedd;
- rheoli ein tiroedd yn effeithlon i gefnogi adferiad natur, bioamrywiaeth a chloi carbon ble'n bosib;
- ymateb i hinsawdd sy'n cynhesu a newid a chefnogi cymdeithas i addasu sut mae'n gweithio, byw a defnyddio tir
- cydweithio gyda holl rhanddeiliaid allweddol i ddylanwadu ar ddatblygiadau ynni newydd a manteisio ar gyfleoedd buddsoddi mewn ynni carbon isel
- cefnogi cyfleoedd cynaliadwy a gwyrdd o fewn ein cymunedau

**Erbyn 2028 byddwn wedi:**

- Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed net sero erbyn 2030 o fewn cyrraedd
- Cynyddu cyfraddau ail-gylchu
- sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau.
- creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r Ynys.

## Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae’r amcanion strategol uchod oll wedi’i llunio er er mwyn cefnogi’r Cyngor yn ei ddyletswydd i gwrdd â’n hamcanion llesiant er budd cenedlaethau’r presennol a hefyd chenedlaethau’r dyfodol. Ein hamcanion llesiant:

a. Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

b. Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

c. Mae pobl Ynys Môn a’i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol

Mae’r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

| **Cysylltiadau ag Amcanion Llesiant y Cyngor a Nodau Llesiant Cenedlaethol** | | **Llewyrchus** | **Cydnerth** | **Iachach** | **Mwy Cyfartal** | **Cymunedau Cydlynus** | **Diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** | **Cyfrifol ar lefel fyd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcan Llesiant 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Amcan Llesiant 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â’n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi’n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

- Cymru Lewyrchus - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd);

- Cymru Gydnerth – Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

- Cymru Iachach – cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

- Cymru sy’n fwy cyfartal – cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

- Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol

Mae'r gwasanaethau cefnogi corfforaethol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn yn hanfodol ar gyfer llwyddiant gwasanaethau rheng flaen. Mae adnoddau, pobl a thechnoleg yn hanfodol wrth i'r Cyngor ymdrechu i foderneiddio a gwella perfformiad. Gan ein bod yn sefydliad sector cyhoeddus, mae yna hefyd brosesau deddfwriaethol y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw yn llawn. Mae rhai o gyfrifoldebau allweddol y gwasanaethau hyn yn cynnwys:


- Adnoddau Dynol: cyfrifoldeb am gydweithio â gwasanaethau rheng flaen er mwyn denu, cadw a datblygu gweithlu'r Cyngor.
- Perfformiad Corfforaethol: darparu barn annibynnol ar berfformiad, cynghori ar gyfleoedd i wella a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus.
- Rhaglen Gorfforaethol a Rheoli Prosiect: sicrhau bod prosiectau'r Cyngor yn cael eu darparu mewn modd effeithiol ac effeithlon gan ddarparu gwerth am arian.
- TG: darparu systemau a gwasanaethau digidol dibynadwy a diogel er mwyn cefnogi gwaith y Cyngor.
- Adnoddau (Cyllid): darparu rheolaeth a chefnogaeth ariannol er mwyn sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei reoli mewn modd effeithiol.
- Cyfreithiol: darparu cyngor a chefnogaeth gyfreithiol i'r Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- Gwasanaethau Democrataidd: rheoli prosesau democrataidd y Cyngor, yn cynnwys cynnal etholiadau.
- Cwynion a Llywodraethiant Gwybodaeth: cyfrifoldeb am reoli a datrys cwynion, sicrhau bod y Cyngor yn dryloyw ac yn agored wrth iddo gydymffurfio â disgwyliadau rheoli data a phreifatrwydd.
- Caffael: cyfrifoldeb am gynghori a chefnogi'r gwaith o gaffael nwyddau a gwasanaethau gan sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn cyflawni'r gwerth gorau am arian.
- Archwilio Mewnol: darparu barn annibynnol ar systemau ariannol a gweithredol y Cyngor, adnabod risgiau a gwneud argymhellion am ffyrdd o wella.
- Cyfathrebiadau: cyfrifoldeb am gyfathrebu mewnol ac allanol, rhannu gwybodaeth a gweithgareddau ymgysylltu'r Cyngor.
- Iechyd a Diogelwch: cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â rheoliadau iechyd a diogelwch, rheoli risg a hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel.
- Polisi, cydraddoldeb, cyfieithu a'r Iaith Gymraeg: cyfrifoldeb am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau a'r safonau perthnasol.
- Swyddfa'r Prif Weithredwr: Mae'r swyddfa'n cefnogi ac yn gyrru cyfeiriad strategol cyffredinol, cydlyniad ac arweinyddiaeth sefydliadol y Cyngor.

## Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

**Beth yw rheoli perfformiad?**

Mae rheoli perfformiad yn broses lle mae'r Cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau sydd gennym.

Mae'r ffigwr isod yn dangos y broses hon:




*Ceir rhagor o wybodaeth yn atodiad 2.

## Atodiad 1

**STRATEGAETHAU / CYNLLUNIAU CEFNOGOL**

- Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Blaengynllun Oriel Môn
- Strategaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad 2022
- Asesiad Anghenion o Boblogaeth 2022

**Strategaeth Gyfalaf a Rheoli'r Trysorlys**

- Cynllun Rheoli Cyrchfan
- Cynllun Rheoli Toiledau Cyhoeddus
- Cynllun Rheoli AHNE
- Strategaeth Diogelwch Ynni'r DU
- Codi'r Gwastad yn y Deyrnas Unedig
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016)
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru – rhifyn 11 Chwefror 2021
- Strategaeth Genedlaethol ar Gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

- Strategaeth Dai 2022-2027
- Strategaeth Rhaglen Cefnogi Tai Ynys Môn 2022-2026

- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
- Tuag at Sero Net
- Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan
- Strategaeth / Cynllun Rheoli Asedau
- Y Llwybr Newydd

## Cynllun y Cyngor – Cyd-destun Strategol Cenedlaethol a Rhanbarthol

### Strategaethau / Cynlluniau Cenedlaethol

- *Y Rhaglen Lywodraethu*
- *Y Cytundeb Cydweithio*
- *Strategaeth Effeithiolrwydd Ynni ar gyfer Cymru 2016-2026*
- *Strategaeth Dwf Gogledd Cymru (Rhagfyr 2020)*
- *Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru – Prosbectws Adfer Covid (Chwefror 2021)*
- *Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn*
- *Croeso i Gymru: blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025*
- *Ffyniant i Bawb – Cynllun Gweithredu ar yr Economi*
- *Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2*
- *Strategaeth Adeiladu Tai Cymdeithasol 2021*

### Deddfwriaeth

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2016
- Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf yr Amgylchedd 2016
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhagfyr 2021)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Cydraddoldeb 2010

# Atodiad 2

## Sut rydym yn mesur a dadansoddi ein perfformiad

**Beth yw rheoli perfformiad?**

Mae rheoli perfformiad yn broses lle mae'r Cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion y gwasanaethau ac amcanion unigol, o fewn adnoddau sydd gennym.

**Cynllun y Cyngor**

Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys ein nodau ac amcanion strategol ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n rhoi gwybod am y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- dylanwadu ar y modd y byddwn yn llunio ein cyllideb yn flynyddol, ac yn
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu beth y byddwn yn ei gyflawni bob blwyddyn.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Bydd y Cynllun yn cael ei gyflawni'r drwy wireddu'r dogfen cyflawni flynyddol (Ebrill – Mawrth). Bydd yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac yn gosod cynlluniau penodol y Cyngor am 12 mis yn erbyn Cynllun y Cyngor. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, byddwn yn paratoi adroddiad perfformiad blynyddol i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y ddogfen cyflawni flynyddol dros y 12 mis diwethaf.

Caiff Cynllun y Cyngor ei fonitro drwy amrywiaeth o sianelau sy'n cynnwys:

- byrddau rhaglen trawsnewid chwarterol;
- adroddiad cerdyn sgorio corfforaethol chwarterol; ac
- adolygiadau gwasanaeth blynyddol

Yn dilyn hynny, bydd adroddiadau a gynhyrchir gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried gan ein pwyllgor sgriwtini corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn erbyn ein blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae gan y byrddau rhaglen gylch gwaith i ysgogi a galluogi trafodaethau strategol yn ymwneud â themâu penodol. Maent yn cynnig sicrwydd a hyder i gynghorwyr ac uwch arweinwyr bod buddion a ragwelir ar gyfer y Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob gwasanaeth ymgymryd â dau adolygiad gwasanaeth bob blwyddyn a byddant yn cael eu cynnal a'u rheoli'n gorfforaethol:

1. Adolygiad Ariannol o'r Gwasanaeth

   Y broses o ragweld arbedion o fewn gwasanaethau a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo'r broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad o Berfformiad a Risg y Gwasanaeth

Gofynnir i'r gwasanaethau gwblhau hunanasesiad gwasanaeth er mwyn gweld sut y maent yn perfformio mewn perthynas â amcanion allweddol. Fe'i defnyddir er mwyn rhoi sicrwydd i'r tîm arwain strategol a'r Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth yn cyd-fynd â chyfeiriad ehangach y Cyngor a bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Datblygwyd y cerdyn sgorio corfforaethol er mwyn adnabod a hysbysu arweinwyr y Cyngor am gynnydd yn erbyn dangosyddion sy'n dangos bod gweithgareddau'r Cyngor o ddydd i ddydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'n cynorthwyo i ddarparu sylfaen dystiolaeth drwy'r dangosyddion y gellir drafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol ohono. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau gweithredu lliniarol y mae'r tîm rheoli strategol wedi eu hadnabod er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau.

**Hunanasesiad Corfforaethol**

Mae'r hunanasesiad corfforaethol yn adlewyrchu effaith y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad ac yn darparu sail dystiolaeth o sut mae'r Cyngor wedi perfformio gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig.